Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

23 Ionawr 2020

Annwyl Jeremy

**Cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol**

Yn ein cyfarfod ar 20 Ionawr 2020, nododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (y Pwyllgor) y llythyr dyddiedig 14 Ionawr 2020 gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig (y Gweinidog) yn rhoi gwybod i ni am y rhaglen gyfarfodydd sydd ar y gweill ar gyfer y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.

Dan delerau’r cytundeb cysylltiadau rhyng-sefydliadol (y cytundeb), mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i roi i'r Pwyllgor, ac i unrhyw bwyllgor perthnasol arall yn y Cynulliad Cenedlaethol, rybudd ysgrifenedig o flaen llaw o bresenoldeb Gweinidogion Cymru mewn cyfarfodydd rhynglywodraethol ffurfiol. Os nad yw rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw yn ymarferol, dylid cyhoeddi gohebiaeth cyn gynted â phosibl a chyn y cyfarfod. Yn hynny o beth, roeddem yn siomedig na chawsom y llythyr gan y Gweinidog tan ar ôl y cyfarfod cyntaf yn y gyfres a amlinellwyd yn ei llythyr.

Hefyd, mae’r cytundeb yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn rhoi i'r Pwyllgor, ac i unrhyw bwyllgor perthnasol arall, grynodeb ysgrifenedig o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod. Sylwaf, yn dilyn cyfarfod y Cyd-bwyllgor Gweinidogol (Negodiadau’r UE) ar 9 Ionawr 2020, eich bod wedi cyhoeddi datganiad ysgrifenedig i’r Cynulliad Cenedlaethol ar 21 Ionawr yn crynhoi trafodion y cyfarfod. Er fy mod yn croesawu'r datganiad ysgrifenedig hwn, ni chafodd y Pwyllgor, o dan baragraffau 12 a 13 y cytundeb, rybudd ysgrifenedig ymlaen llaw o gyfarfod y Cyd-bwyllgor.

At hynny, yn eich llythyr atom dyddiedig 13 Medi 2019, dywedoch “o hyn ymlaen, pan fydd datganiad ysgrifenedig yn briodol byddwn yn rhoi gwybod ichi cyn ei gyhoeddi/adeg ei gyhoeddi”. Ni ddaeth yr hysbysiad hwn i law cyn eich datganiad ysgrifenedig ar 21 Ionawr 2020.

O dan delerau'r cytundeb, rydym yn gobeithio cael crynodeb ysgrifenedig o gyfarfod y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a gynhaliwyd ar 13 Ionawr 2020, erbyn 27 Ionawr 2020.

Yn yr un modd, nodaf o'ch datganiad ysgrifenedig ar 21 Ionawr eich bod yn disgwyl cynnal cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor Gweinidogol (Negodiadau'r UE) yn ddiweddarach y mis hwn yng Nghaerdydd, a fydd yn canolbwyntio ar gwblhau cynigion ar gyfer datrys anghydfodau fel rhan o'r Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol. Edrychaf ymlaen at gael crynodeb ysgrifenedig o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod hwnnw maes o law.

Rydym yn ymwybodol o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud nid yn unig ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, ond hefyd â datblygiadau cyfansoddiadol a'r rhaglen ddeddfu ddomestig. Fodd bynnag, yn eich llythyr atom ar 13 Medi, gwnaethoch gadarnhau bod "Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i'r egwyddorion o dryloywder y seiliwyd y cytundeb [cysylltiadau rhyng-sefydliadol] arnynt ac i gefnogi rôl graffu'r Cynulliad". Dyma pam yr ydym yn dod â'r materion hyn i'ch sylw.

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i ofyn i chi roi syniad o pryd y bydd Llywodraeth Cymru yn gosod ei hadroddiad blynyddol cyntaf ar gysylltiadau rhynglywodraethol, yn unol â pharagraff 18 y cytundeb.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.